



Cyflogai Hysbysiad Preifatrwydd

Rhagymadrodd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn wedi cael ei ddylunio i'ch helpu i ddeall sut mae Coleg Gwent. ("Y Coleg", "ni",) yn casglu a phrosesu'r wybodaeth a rannwch gyda ni.

Gyda'i gilydd, daeth y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a'r Ddeddf Diogelu Data (2018) i gymryd lle Deddf Diogelu Data 1998 ar 25 Mai 2018. Rydym yn darparu'r hysbysiad preifatrwydd i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd hon.

Pwy yw'r Rheolwr Data?

Rheolwr y Data a gasglwn amdanoch yw Coleg Gwent, Campws Brynbuga, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 1XJ. Mae gennym gynrychiolwyr dynodedig ar ran y Coleg. Mae rhain yn Y Pennaeth, y 2 Dirprwy Bennaeth a'n Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau

Mae gan y Grŵp hefyd Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu â hwy yn DPO@colegwent.ac.uk

Pam rydym ni'n casglu eich data a'r seiliau cyfreithiol dros wneud hynny?

Mae'r Grŵp yn casglu data am ei weithwyr er mwyn gweinyddu a rheoli'r contract cyflogaeth.

Mae'r Gyfraith yn dweud y gallwn gasglu neu brosesu eich data yn unig os oes sail gyfreithiol i wneud hynny. Mae'r seiliau cyfreithiol mae'r Grŵp yn dibynnu arnynt i brosesu pob mathau o ddata personol yn cynnwys:

- i gyflawni contract sydd gennym gyda chi
- pan fo gennym rwymedigaeth gyfreithiol
- lle bo er budd cyhoeddus
- lle rydych wedi rhoi eich cydsyniad, er bod hyn hefyd yn angenrheidiol o dan nifer cyfyngedig o amgylchiadau

Mae darpariaethau ychwanegol yn y ddeddfwriaeth sy'n ein galluogi i brosesu data personol sy'n cael ei adnabod fel data personol categori arbennig. Mae hyn yn cynnwys eich tarddiad hiliol neu ethnig, eich agweddau gwleidyddol, eich credoau crefyddol neu athronyddol, eich aelodaeth undeb llafur, eich data genetig neu fiometrigrig, eich iechyd, eich bywyd rhywiol chyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw euogfarnau troseddol a throseddau.

Rheswm dros Brosesu	Sail Gyfreithiol
I sicrhau bod cyflogau'n cael eu talu	Rhwymedigaethau cytundebol
I sicrhau bod taliadau pensiwn yn cael eu gwneud	Rhwymedigaeth gyfreithiol
I sicrhau bod didyniadau treth yn cael eu gwneud	Rhwymedigaeth gyfreithiol
I alluogi staff i gael mynediad at dalebau gofal plant	Rhwymedigaethau cytundebol
I sicrhau urddas, tegwch a chydarddoldeb yn y gweithle	Rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y gyfraith cyflogaeth, y gyfraith diogelu gymdeithasol a budd y cyhoedd
I sicrhau tâl salwch	Rhwymedigaethau cytundebol
I ddarparu hawliau gwyliau blynyddol	Rhwymedigaethau cytundebol
Cynnal prosesau recriwtio a dyrchafu	Rhwymedigaethau cytundebol
Cynnal cofnodion cyflogaeth a manylion cyswllt cywir a chyfredol (gan gynnwys manylion am bwy i gysylltu â nhw os bydd argyfwng), a chofnodion o hawliau cytundebol a hawliau statudol gweithwyr;	Rhwymedigaethau cytundebol, rhwymedigaethau cyfreithiol a budd y cyhoedd
Gweithredu a chadw cofnod o brosesau disgyblu a chwyno	Rhwymedigaethau cyfreithiol a budd y cyhoedd
Gweithredu a chadw cofnod o berfformiad gweithwyr a phrosesau cysylltiedig	Rhwymedigaethau cyfreithiol a budd y cyhoedd
Gweithredu a chadw cofnod o absenoldebau a'r weithdrefn rheoli absenoldebau	Rhwymedigaethau cyfreithiol gan gynnwys rhesymau iechyd a diogelwch, y gyfraith cyflogaeth, y gyfraith diogelu gymdeithasol a budd y choedd
Cael cyngor am iechyd galwedigaethol	Mae angen caniatâd o dan y Ddeddf Mynediad at Adroddiadau Meddygol 1988, ond gallwn hefyd ddibynnu ar y ffaith bod angen prosesu'r wybodaeth am resymau iechyd a diogelwch a'n

	rhwymedigaethau o dan y gyfraith cyflogaeth a'r gyfraith diogelu gymdeithasol
Gweithredu a chadw cofnod o fathau eraill o absenoldebau	Rhwymedigaethau cyfreithiol a budd y cyhoedd
Sicrhau gweinyddiaeth adnoddau dynol a gweinyddiaeth busnes cyffredinol effeithiol	Rhwymedigaethau cytundebol, rhwymedigaethau cyfreithiol, budd y cyhoedd
Darparu geiradaon ar gais ar gyfer gweithwyr cyfredol a chyn-weithwyr	Rhwymedigaethau cyfreithiol a budd y cyhoedd
Ymateb i, ac amddiffyn hawliadau cyfreithiol	Rhwymedigaethau cyfreithiol a'r sefydliad, gwneud neu amddiffyn hawliadau

Mae gennym hefyd rwymedigaeth gytundebol i rannu eich gwybodaeth gyda thrydydd partïon eraill, gan gynnwys CThEM, cwmnïau pensiwn ac awdurdodau lleol

Mae gan y Grŵp hefyd rwymedigaeth gyfreithiol i gasglu rhywfaint o'ch data am resymau iechyd a diogelwch ac ariannol.

Mae rhai categorïau arbennig o ddata personol, megis gwybodaeth am iechyd neu gyflyrau meddygol, yn cael eu prosesu i gyflawni rhwymedigaethau'r gyfraith cyflogaeth (megis data am weithwyr ag anabledau).

Rydym yn prosesu categorïau arbennig o ddata personol, megis gwybodaeth am darddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd neu gred, at ddibenion monitro cyfle cyfartal.

Gallwn hefyd fonitro e-byst neu ddefnydd o'r rhyngwrwd fel y nodir yn ein Fframwaith Diogelwch Gwybodaeth

Pa wybodaeth rydym ni'n casglu?

- eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt (gan gynnwys e-bost a rhif teleffon), dyddiad geni a rhyw;
- telerau ac amodau eich cofrestrriad/cais
- manylion eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth

- gwybodaeth am eich tâl, gan gynnwys hawliau i fudd-daliadau fel lwfans ceiswyr gwaith, pensiynau neu yswiriant
- manylion eich cyfrif banc, rhif yswiriant cenedlaethol
- Gwybodaeth am eich satws priodasol, perthynas agosaf, dibynyddion a chysylltiadau argyfwng
- Gwybodaeth am eich cenedligrwydd a hawl i astudio/gweithio yn y DU
- Gwybodaeth m eich cofnod troseddol a cholffarnau heb eu dihysbyddu. Mae hyn yn gategori arbennig ac mae'r grŵp yn cymryd gofal arbennig wrth brosesu'r wybodaeth hon
- Manylion eich amserlen (dyddiau gwaith/astudio ac oriau gweithio/astudio) a mynychu yn y Grŵp/gwaith
- manylion o gyfnodau absenoldeb sy'n cael eu cymryd gennych, gan gynnwys gwyliau, salwch, absenoldeb, absenoldeb teuluol dyddiau sabothol, a'r rhesymau am yr absenoldeb;
- manylion o unrhyw weithdrefnau disgyblaethol neu gwyno yr ydych wedi bod yn rhan ohonynt, gan gynnwys unrhyw rybuddion a roddwyd i chi a gohebaeth berthynol;
- asesiadau o'ch perfformiad, gan gynnwys arfarniadau, adolygiadau perfformiad a graddiadau, cynlluniau gwella perfformiad a gohebiaeth berthynol;
- gwybodaeth am gyflyrau meddygol neu iechyd, gan gynnwys a oes gennych anabled neu beidio y mae angen i'r Grŵp wneud newidiadau rhesymol ar eu cyfer; a
- monitro gwybodaeth cyfleoedd cyfartal gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad erhng, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gred. Mae hyn yn ddata categori arbennig ac mae'r grŵp yn cymryd gofal neilltuol wrth brosesu'r wybodaeth hon
- Gweithgaredd electronig fel y nodir yn y fframwaith diogelwch gwybodaeth

Mae aelodau o'r tîm Adnoddau Dynol a rheolwyr hefyd yn aml yn dysgu gwybodaeth bersonol am eu gweithwyr wrth ymdrin â materion cyflogaeth. Gall hyn gynnwys salwch, cefndir crefyddol, tueddfryd rhywiol a sefyllfaoedd teuluol. Gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd unrhyw wybodaeth yr ydych yn ei hystyried yn gyfrinachol yr ydych chi'n ei rhannu gyda'ch rheolwr a'r adran Adnoddau Dynol yn cael ei thrin gyda'r sensitifrwydd mwyaf.

O ble rydym ni'n casglu eich data?

Casglwn eich gwybodaeth o ffynonellau amrywiol gan gynnwys:

- yn uniongyrchol oddi wrthyich chi,
- swyddfa budd-daliadau
- gwasanaethau cymdeithasol / cyngor bwrdeistref sirol lleol
- eich cyfeiriad IP trwy gydsyniad cwci ar ein gwefan
- ffilm teledu cylch cyfyng o gamerâu ar y safle
- Ffotograffau o ddigwyddiadau coleg
- Gwasanaethau iechyd galwedigaethol/cynghori
- eich cyflogwr blaenorol
- gwybodaeth rydym yn ei chynhyrchu wrth ystyried eich cais am gyflogaeth

- gwybodaeth rydym yn ei chynhyrchu tra ydych wedi eich cyflogi gennym ni. Gellir cynhyrchu'r wybodaeth hon yn ganolog o fewn yr adran Adnoddau Dynol neu gan eich rheolwyr neu gydweithwyr
- CThEM a chwmnïau pensiwn
- Canolwyr
- Darparwyr gwiriadau cefndir
- Gwybodaeth gan asiantaethau gwirio credyd
- Gwybodaeth o archwiliadau cofnodion troseddol sy'n cael eu caniatáu gan y gyfraith.

Pa mor hir rydym ni'n cadw eich data?

Mae ein trefn cadw cyflawn ar gael ar gais.

Y priff ddyddiadau cadw yw:

MATH O GOFNOD	CYFNOD CADW
Ffurflenni cais / CVs staff	Y flwyddyn gyfredol + 6 blynedd
Ffurflenni archebu hyfforddiant proffesiynol	Y flwyddyn gyfredol + 6 blynedd
Ffurflenni caniatâd ffotograffiaeth	Y flwyddyn gyfredol + 6 blynedd
Dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth ariannol	Y flwyddyn ariannol gyfredol + 6 blynedd
Cofnodion Cleientiaid	Y flwyddyn gyfredol + 6 blynedd
Gwaith papur Disgyblu Staff	Gweithred olaf yr achos + 6 blynedd

Gyda phwy rydym ni'n rhannu eich data?

Os ydych mewn rôl sy'n wynebu allan, efallai y bydd gwybodaeth amdanoch yn cael ei rhannu gydag unrhyw drydydd parti yr ydym yn gweithio gyda hwy neu mae gennym berthynas gyda hwy. Bydd hyn yn gyfyngedig i wybodaeth sy'n gysylltiedig â gwaith a gwybodaeth amdanoch chi sy'n disgrifio eich safle proffesiynol.

Fodd bynnag, mae angen i'r Grŵp, brosesu gwybodaeth breifat amdanoch chi er mwyn bodloni ein rhwymedigaethau o dan eich contract cyflogaeth. Er enghraifft, bydd y Grŵp yn rhannu eich gwybodaeth gyda'r asiantaeth bensiwn i sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud yn gywir.

Ein Rhestr Trydydd Parti

Mae'r Grŵp yn bartner gyda nifer o drydydd partion y rhannwn ddata gyda hwy. Nid ydym yn defnyddio unrhyw drydydd parti wedi ei leoli y tu allan i'r UE ac mae'r holl storio data hefyd yn cael ei ddal o fewn yr UE.

Categori rhannu	Pam y rhannwn
Archwilwyr	I brofi a monitro gweithgareddau'r grŵp i sicrhau cydymffurfio
Sefydliadau llywodraeth a chysylltiedig	Anfonwn ddata at sefydliadau llywodraeth er mwyn ennill cyllid, i alluogi addysgu a dysgu, i gefnogi dysgwyr, i gydymffurfio â gofynion fel taliadau treth ein staff
Yswiriant	I sicrhau bod y coleg wedi'i yswirio yn addas i'w wneud yn amgylchedd diogel
Darparwr gwasanaeth - marchnata	I ddarparu newyddion a digwyddiadau o'r grŵp i unigolion
Darparwr Gwasanaeth - nwyddau metal	I alluogi staff a dysgwyr i gael gwasanaeth effeithlon wrth ddefnyddio cyfleusterau'r grŵp
Darparwr gwasanaeth - cefnogaeth TG	I alluogi staff a dysgwyr i gael gwasanaeth effeithlon wrth ddefnyddio cyfleusterau'r grŵp
Darparwr Gwasanaeth - meddalwedd	I alluogi staff a dysgwyr i gael gwasanaeth effeithlon wrth ddefnyddio cyfleusterau'r grŵp
Darparwr Gwasanaeth - cludiant	ar gyfer teithiau ac ymweliadau
Dadansoddiad ystadegol	I ddarparu gwybodaeth er budd y cyhoedd sy'n berthynol i berfformiad y grŵp
Trefniadaeth addysgol (ysgolion, prifysgolion, colegau)	I alluogi addysgu, dysgu a chyllido ar gyfer dysgwyr
Cyfleusterau archif	I storio dogfennau papur sy'n cynnwys data personol yn ddiogel
Darparwr Gwasanaeth - gwasanaethau cwsmer	I sicrhau gwasanaeth proffesiynol wrth gysylltu â'r grŵp
Sefydliadau cyfreithiol (cyfreithwyr, heddlu, llysoedd)	I gefnogi diogelwch dysgwyr a staff, ar gyfer achosion llys ac i ennill cyngor cyfreithiol

Cyflogwr/Darparwr hyfforddiant/Darparwr Lleoliad Gwaith	I alluogi addysgu, dysgu a chyllido ar gyfer dysgwyr
DVLA	I sicrhau bod staff yn gymwys i yrru cerbydau'r coleg
Sefydliadau pensiwn	Gofyniad cyfreithiol er mwyn talu cyfraniadau pensiwn staff
Darparwr gwasanaeth - aberthu cyflog	I ddarparu buddion i weithwyr
Recriwtio Staff	I sicrhau proses recriwtio effeithiol
Undebau Llafur	I ddarparu gwasanaethau undeb i'n staff
Gwasanaethau Lles Staff	I sicrhau iechyd a lles staff y grŵp

Gall gwefan y grŵp gynnwys dolenni i wefannau eraill ein rhwydweithiau partner, hysbysebwyd a chyrrff cysylltiedig. Os ydych chi'n dilyn dolennau i'r gwefannau hyn, sylwch fod ganddynt eu hysbysiadau preifatrwydd a pholisïau eu hunain. Nid yw'r Grŵp yn derbyn cyfrifoldeb nac atebolrwydd am yr hysbysiadau a pholisïau hyn. Gwiriwch eu polisïau cyn i chi gyflwyno unrhyw ddata personol i'r gwefannau hyn.

Ydy'r Grŵp yn dibynnu ar wneud penderfyniad yn awtomataidd?

Nid yw'r Grŵp yn defnyddio gwneud penderfyniad awtomataidd ar hyn o bryd.

Sut rydym ni'n diogelu eich data?

Mae'r grŵp yn cymryd eich diogelwch o ddifrif. Mae ganddo bolisïau a rheolaethau mewnol yn eu lle i geisio sicrhau nad yw eich data yn cael eu colli, eu dinistrio'n ddamweiniol, yn cael eu camdefnyddio na'u datgelu, ac nad oes mynediad atynt heblaw gan ei weithwyr ym merfforniad eu dyletswyddau.

Byddwn ond yn rhannu gwybodaeth yn fewnol gyda staff sydd angen y wybodaeth er mwyn cyflawni eu dyletswyddau rheoli llinell neu i ddarparu'r offer sydd eu hangen arnoch i gyflawni eich contract. Bydd data categori arbennig a data sensitif sy'n cael ei ddarparu i'r grŵp yn cael ei storio'n ddiogel gyda mynediad cyfyngedig i'r tîm Adnoddau Dynol ac, weithiau, aelodau eraill o staff sy'n gofyn am y wybodaeth i roi cymorth a chyfarpar i chi.

Lle mae'r grŵp yn defnyddio trydydd partion i brosesu data personol ar ei ran, gwnânt hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig, maen nhw o dan ddyletswydd cyfrinachedd a than rwymedigaeth i weithredu mesurau technegol a sefydliadol priodol i sicrhau diogelwch data.

Mae'n ofynnol i'r holl staff gymryd hyfforddiant diogelu data pob blwyddyn.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych nifer o hawliau o dan y GDPR.

Mae hyn yn cynnwys yr hawl i geisio cywiro neu ddileu eich data personol ac i wrthwynebu prosesu eich data personol.

Mae gennych hawl hefyd i gopi o'r data sy'n cael ei ddal amdanoch chi, ac i hygludedd data.

Lle rydym yn prosesu eich data, yn seiliedig ar eich cydsyniad, Mae gennych yr hawl hefyd i dynnu eich cydsyniad yn ôl i rannu data gyda ni ar unrhyw bwynt. Mae gan y Grŵp hawl i gadw data a broseswn trwy seiliau cyfreithiol eraill i fodloni ein rhwymedigaethau statudol a chytundebol a amlinellir uchod.

Gellir gwneud ceisiadau o'r natur hyn mewn nifer o ffyrdd:

1. Cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data wrth e-bostio DPO@coleggwent.ac.uk
2. Wrth gwblhau ffurflen ymholiad diogelu data ar y wefan.
3. Wrth gwblhau cais mynediad at bwnc sydd ar gael ar dudalen preifatrwydd y wefan a'i bostio at:

Y Swyddog Diogelu Data
Coleg Gwent
Campws Crosskeys
Ffordd Risga
Crosskeys
Caerffili
NP11 7ZA

Os ydych chi'n teimlo nad ydym wedi delio â'ch data yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwn neu yn achos unrhyw gŵyn arall, gallwch anfon eich pryderon ymlaen at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (The ICO).

Newidiadau i'r ffordd y proseswn eich data

Gall yr hysbysiad preifatrwydd hwn gael ei ddiweddarau o dro i dro.